# DILEU CASINEB

Os ydych chi wedi gweld iaith casineb ar-lein neu wedi profi hyn eich hun mewn cysylltiad â'ch prifysgol, efallai eich bod yn meddwl tybed pa gamau y gallwch eu cymryd i'w riportio.

## Beth yw iaith casineb?

Iaith casineb yw unrhyw iaith sy'n hyrwyddo stereoteipiau sarhaus neu'n annog trais yn erbyn grŵp o bobl yn seiliedig ar eu hunaniaeth gyfunol. Gall gynnwys camdriniaeth, bygythiadau a bwlio ailadroddus /aflonyddu

## Riportio iaith casineb ar-lein

Gallwch riportio achosion untro i'r cyfryngau cymdeithasol. Gallwch fynd i Report Harmful Content i gael cymorth a chyngor ar sut sut i riportio camdriniaeth ar fwy nag un platfform: reportharmfulcontent.com

Gallwch riportio trosedd casineb i'r heddlu ar 101 (rhif ar gyfer achosion and ydyn nhw'n rhai brys), 999 (achosion brys) ac ar-lein: report-it.org.uk

## Codwch eich llais

Os ydych chi'n teimlo ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny, codwch eich llais a heriwch gamwybodaeth ar-lein lle bo hynny'n bosibl.

## Problemau mwy a pharhaus

Mewn achosion lle mae cam-drin neu aflonyddu yn parhau, dylech droi at eich prifysgol am help. Mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion lwybrau adrodd dienw ar gael ar eu gwefannau. Gallwch hefyd roi gwybod yn bersonol i undeb eich myfyrwyr.

## Ddim yn fodlon ar sut mae eich adroddiad wedi cael ei drafod?

Mae gennych hawl i gwyno. Dilynwch weithdrefn gwyno eich prifysgol ac os nad yw hynny'n gweithio, codwch y mater gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA): oiahe.org.uk

## Ddim yn fodlon ag ymateb yr Heddlu?

Gallwch fynd at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC): policeconduct.gov.uk

## Pethau i'w cofio

- Os ydych chi wedi dioddef trosedd, dydi hyn byth yn fai arnoch chi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael cefnogaeth emosiynol, siaradwch â ffrind a gofalwch amdanoch eich hun.
- Cofnodwch (drwy sgrinluniau ac ati) yr achos o aflonyddu ac unrhyw gyfathrebu â'r brifysgol.
- Mae gan eich prifysgol ddyletswydd gofal tuag atoch a dylai fabwysiadu polisi dim goddefgarwch tuag at iaith casineb.
- Mae gennych yr hawl i ddewis pa gamau gweithredu yr hoffech eu cymryd.
- Wrth herio camwybodaeth, gall gwrthiaith (ymateb i iaith casineb sy'n ceisio ei thanseilio) helpu i ddylanwadu ar y drafodaeth a newid agweddau er gwell.

## Cyngor a chefnogaeth bellach

Cysylltwch ag adran lles eich prifysgol, y gwasanaeth caplaniaeth neu'r NUS am gymorth pellach: nus.org.uk

Mae True Vision yn darparu cyngor am droseddau casineb ar-lein a llwybr ar gyfer riportio i'r heddlu: report-it.org.uk/reporting_internet_hate_crime

Mae RHC yn darparu cyngor penodol ar sut i riportio casineb ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol: reportharmfulcontent.com/advice/other/hate-crime

Mewn argyfwng, cysylltwch â'r heddlu ar 999. Os ydych wedi dioddef ymosodiad rhywiol yn ddiweddar, gallwch gael help gan eich SARC lleol.

Gall Llinell Gymorth Revenge Porn eich cefnogi i gael gwared ar ddelweddau rhywiol preifat sydd wedi'u rhannu heb ganiatâd: revengepornhelpline.org.uk

Gall Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol helpu myfyrwyr sy'n hyfforddi i weithio gyda phobl ifanc sydd â phroblemau ar-lein y maen nhw'n eu hwynebu: swgfl.org.uk/services/professionals-online-safety-helpline

NPCC National Police Chiefs' Council
REPORT HARMFUL CONTENT
SWGfL Safe, Secure, Online